## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys—

(a) darpariaethau sy'n galluogi priodas neu bartneriaeth sifil pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol;

(b) llacio'r gofyniad i aros gartref oni bai bod gennych esgus rhesymol sy'n galluogi pobl i fod yn yr awyr agored at unrhyw ddiben o fewn eu hardal leol;

(c) llacio'r cyfyngiad ar ymgynnull sy'n caniatáu i bersonau o ddim mwy na dwy aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Regulations revoked by S.I. 2020/725 reg. 3(1)(f)
- Regulations revoked by S.I. 2020/725 reg. 3(1)(f)
- reg. 1 coming into force by S.I. 2020/557 reg. 1
- reg. 2 coming into force by S.I. 2020/557 reg. 1
- reg. 3 coming into force by S.I. 2020/557 reg. 1